



PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG




# Cynllun Rheoli 2010-2015

## *yn Gryno*

*rheoli newid gyda'n gilydd*



PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK

PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU
Lle i enaid gael llonydd

www.bannaubrycheiniog.org

## Beth yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

Ardal brydferth o gefn gwlad yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n cael ei diogelu gan y gyfraith. Mae'n bodoli oherwydd y dynion a merched hynny a oedd â gweledigaeth i ddiogelu a gwella'r ardal hon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Parc yn bodoli i wireddu dau ddiben:

- **Cadw a gwella:**
  *"cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol."*
- **Dealltwriaeth a mwynhad:**
  *"hybu cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau rhinweddau arbennig (y Parciau) gan y cyhoedd."*

Hefyd mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - y corff gweinyddol a ffurfiwyd i helpu i reoli'r Parc - ddyletswydd i:

*"…geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol trwy weithio'n agos â'r asiantaethau ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y materion hyn."*

## Beth sy'n gwneud Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle arbennig?

Er bod gan bawb eu hargraff unigol o'r hyn sy'n gwneud y Parc mor arbennig, mae ymgynghoriad arbennig wedi dangos bod rhai profiadau'n cael eu rhannu. Mae'r profiadau hyn a rennir yn dangos pa rinweddau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi yn arbennig fel y gall cenedlaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol barhau i gael budd ohonynt. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r rhinweddau arbennig hyn:

- Parc Cenedlaethol sy'n cynnig **heddwch a thawelwch** â chyfleoedd ar gyfer mwynhad tawel, ysbrydoliaeth, ymlaciad ac adnewyddiad ysbrydol.
- Teimlad o **fywiogrwydd a lles** trwy fwynhau awyr iach, dwr glân, lleoliad gwledig, tir agored a bwydydd a gynhyrchwyd yn lleol yn y Parc.
- **Naws am le a hunaniaeth ddiwylliannol** - 'Cymreictod' - sy'n cael ei nodweddu gan yr iaith Gymraeg, cysylltiadau crefyddol ac ysbrydol, arferion a digwyddiadau unigryw,



bwydydd a chrefftau traddodiadol. Ynghyd â threfi a phentrefi hanesyddol cymharol ddigyffwrdd, ffermydd teuluol a pharhad o ran arfer sgiliau traddodiadol a ddatblygwyd gan drigolion lleol i fyw ac ennill bywoliaeth yma, fel arferion tir comin a phori.

- **Teimlad o ddarganfyddiad** lle mae pobl yn archwilio storïau a chyfrinachau cudd y Parc fel hanesion achyddol, safleoedd defodol cynhanesyddol, olion aneddiadau gwledig canoloesol, safleoedd diwydiannol cynnar, mythau a chwedlau lleol a thrysorau daearegol er amser cyn cof.
- **Gwychder ysgubol a harddwch naturiol anhygoel** y Parc a arsylwyd ar draws amrywiaeth o dirweddau a gysylltwyd yn gytûn, gan gynnwys ceunentydd a rhaeadrau rhagorol, daeareg carst clasurol ag ogofâu a llync-dyllau, tirffurfiau rhewlifol cyferbyniol fel clogwyni a dyffrynnoedd llydan wedi'u cerfio o hen dywodfaen coch a phennau bryniau amlwg â golygfeydd helaeth i bob cyfeiriad.
- "Clytwaith" gweithiol, byw o **batrymau, lliwiau a gweadau cyferbyniol** sy'n cynnwys tirweddau amaethyddol sy'n cael eu cynnal yn dda, ucheldiroedd agored, llynnoedd ac afonydd dolennog gyda choetiroedd ar raddfa fach, lonydd gwledig, gwrychoedd a waliau carreg ac aneddiadau gwasgaredig.
- Mynediad helaeth ac eang i **amrywiaeth bywyd gwyllt a chyfoeth cynefinoedd lled-naturiol** y Parc, fel coetiroedd brodorol, rhostir a glaswelltir, llynnoedd naturiol a chynefinoedd torlannol, gwrychoedd hynafol, palmentydd calchfaen a gorgorsydd gan gynnwys y rheiny o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol.
- Yng nghyd-destun y DU, **tirweddau daearyddol garw, anghysbell a heriol**.
- Cefn gwlad **bleserus a hygyrch** â chyfleoedd helaeth, eang ac amrywiol i ymgymryd â cherdded, beicio, pysgota, gweithgareddau ar y dŵr a ffurfiau eraill o ymlacio, antur neu hamdden gynaliadwy.
- **Teimlad cyfarwydd o gymuned** lle mae trefi a phentrefi bach, bugeiliol yn gyfeillgar, croesawgar ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn cadw teimlad o letygarwch a chydweithredu.



# Pwy sy'n rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

Weithiau bydd pobl yn synnu i ddysgu nid yw statws Parc Cenedlaethol yn golygu bod yr holl dir yn y Parc dan berchnogaeth gyhoeddus. Mewn gwirionedd, mae dros 65% o'r tir dan berchnogaeth breifat perchnogion ystâd, ffermwyr ac, i raddau llai, deiliaid tai. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n berchen ar 14% o'r Parc Cenedlaethol - tiroedd comin ucheldiroedd yn bennaf - a cheir llawer o dirfeddianwyr mawr cyhoeddus ac elusennol hefyd, gan gynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Dŵr Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn lasbrint ar gyfer pawb sy'n rhannu cyfrifoldeb ar gyfer rheoli'r ardal - tirfeddianwyr a rheolwyr fel ei gilydd. I gynhyrchu'r Cynllun, gwnaeth Awdurdod y Parc ymgynghori mor eang â phosibl. Roedd y broses ymgynghori yn drylwyr a dwys ac roedd cymhlethdod a chwmpas y Cynllun yn adlewyrchu barn yr holl randdeiliaid. Mae crynodeb o'r broses ynghyd â sylwadau ac ymatebion ar gael ar-lein yn www.breconbeacons.org/the-authority/planning/strategy-and-policy/npmp

Yn y pen draw, mae llwyddiant y Cynllun yn dibynnu ar ryngweithiad cydweithredol pawb sy'n gofalu am y Parc a'i ddyfodol.

# Ban disglair ar gyfer y Bannau

Yn ôl chwedlau, pan ddaeth goresgynwyr dros y bryniau roedd coelcerthi'n cael eu cynnau ar ben y bryniau i rybuddio'r bobl leol fel eu bod yn gallu gweithredu i amddiffyn eu tir. Yn gyffelyb mae'r Cynllun Rheoli'n ban disglair ar gyfer y Parc Cenedlaethol ar gyfer y pum mlynedd ar hugain nesaf - galwad am stiwardiaeth unedig i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r cyfrifoldeb hwn ar ysgwyddau'r Awdurdod a chyrff eraill cyhoeddus ond hefyd gyda phawb sy'n byw, yn gweithio, yn mwynhau'r Parc ac sydd â diddordeb personol ynddo.

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn disgrifio dyfodol lle - erbyn 2030 - gallai rheolaeth ddoeth gynhyrchu Parc Cenedlaethol a fydd:

- Yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei werth fel ardal warchodedig, y mae'r rhyngweithiadau hirhoedlog rhwng pobl a phrosesau natur yn parhau i lunio ei gymeriad.
- Yn cael ei gymeradwyo yn gyffredin oherwydd amrywiaeth ei daeareg, cynefinoedd a bywyd gwyllt yn ogystal â'i threftadaeth ddiwylliannol sy'n cael eu cadw a'u gwella trwy ddulliau traddodiadol ac arloesol.
- Yn gyrchfan y mae galw mawr amdano sy'n darparu amrywiaeth anhygoel o gyfleoedd cynaliadwy i bawb ddeall a mwynhau ei heddwch, cymeriad gwledig, y ffordd Gymreig o fyw, teimlad o bellenigrwydd a rhinweddau eraill arbennig.
- Yn wydn, yn agored ac yn ymatebol i newid – yn enwedig newid yn yr hinsawdd - a'i rhanddeiliaid yn rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol trwy weithredu lleol.
- Yn dibynnu llai ar gadwyni cyflenwi allanol sy'n arwain at fwy o ddiogelwch bwyd ac ynni yn lleol, gwell ansawdd bywyd, cydlyniad cymunedol a chadwraeth cyfalaf naturiol.



- Yn dirwedd fyw lle gall pobl ennill bywoliaeth o'r tir mewn dull arloesol a chynaliadwy. Gellir gwneud hyn trwy ffyrdd traddodiadol fel ffermio, ond hefyd gan ddefnyddio syniadau newydd gynhyrchu ynni adnewyddadwy er budd yr amgylchedd, yr economi a chymunedau lleol.
- Yn cael ei reoli yn gynaliadwy trwy bartneriaethau gweithredol ymhlith rhanddeiliaid y Parc fel ei fod yn parhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwynhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Yn cael ei fonitro dros y tymor hir i wella ymarfer polisi a rheoli yn y dyfodol.

## Alla i weld y Cynllun cyfan?

Mae fersiwn llawn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gael i bawb, crynodeb yw hwn. Mae'r fersiwn llawn - yn Gymraeg a Saesneg - yn cynnwys:

- gweledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol, strategaethau tymor
- hir i gyflawni'r deilliannau dymunol a fframwaith gweithredu pum mlynedd i roi newid positif ar waith.

Mae'r cynllun ar gael arlein www.breconbeacons.org/the-authority/planning/strategy-and-policy/npmp.



Sgwd yr Eira

# Rheoli Tirweddau'r Parc



## Pam ei bod yn bwysig rheoli'r Parc er budd pobl a chadwraeth?

Statws Parc Cenedlaethol yw'r lefel uchaf o warchodaeth sydd ar gael ar gyfer tirweddau ac ardaloedd o harddwch gwledig yn y DU. Mae'r warchodaeth yn cael ei disgrifio yn y diben cyntaf a roddir i Awdurdod y Parc Cenedlaethol; mae'n golygu bod yn rhaid i reolwyr tir lleol gadw'r dirwedd, ynghyd â'i bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol. Mae'r diben hwn yn rhoi gwerth i'r dirwedd yn ei rhinwedd ei hun. Mae'r dirwedd yn darparu buddion gwerthfawr i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd, bydd edrych ar ei hôl yn sicrhau ffyniant a lles cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, ni ellir cadw'r Parc Cenedlaethol heb ei newid.

Mae rheoli'r dirwedd yn golygu wynebu newid. Efallai mai effaith newid yn yr hinsawdd neu her cydbwyso niferoedd mawr o ymwelwyr yw hyn. Gallai fod yn ganlyniad dymuniadau trigolion, ffermwyr a busnesau i ddatblygu economi lleol bywiog a chadarn. Mae'n rhaid i'r rheiny sy'n rheoli'r Parc ystyried yr holl wahanol heriau hyn wrth gadw mewn cof yr angen cyffredinol i reoli cadwraeth.

## Beth fyddwn ni'n cyflawni?

Dyma grynodeb byr o'r nodau y manylir arnynt yn fwy manwl yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu sy'n rhoi rhestrau manwl o'r gweithredu sy'n ofynnol i'w cyflawni ac yn disgrifio pa sefydliad fydd yn arwain ar bob un.

Bydd y Cynllun yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran;

- amgylchedd naturiol y Parc
- amgylchedd hanesyddol y Parc
- pwysigrwydd ffermio wrth reoli'r Parc a'r materion sy'n wynebu dyfodol ffermio.

Bydd y Cynllun yn datblygu agenda ymchwil a rheolaeth:

- amddiffyn a rheoli'r amgylchedd naturiol. Gellir gwneud hyn trwy ddod o hyd i brosiect arddangos ar gyfer budd cyhoeddus a chadwraeth, yn enwedig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar lefel leol.
- i amddiffyn a rheoli amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol, er enghraifft trwy ddatblygu strategaeth ar gyfer adeiladu mewn perygl.
- Nodi a gwella rôl ffermio wrth reoli tirweddau'r Parc gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar y buddion sydd ar gael trwy gynlluniau ariannu amaeth-amgylcheddol y Cynulliad Cenedlaethol. Un o'r ffyrdd y gallwn gyflawni hyn yw trwy ddenu buddsoddiad newydd mewn cynlluniau i liniaru newid yn yr hinsawdd.
- Amddiffyn a rheoli coetiroedd y Parc er enghraifft trwy ehangu coetiroedd brodorol ar ffermydd tuag at y coedwigoedd sydd eisoes yn bodoli ar y llethrau uchel.
- Rheoli'r effaith mae ymwelwyr yn ei chael ar dirweddau'r Parc a gweithredu i'w lleihau gymaint â phosibl - yn enwedig ar fywyd gwyllt a'u cynefinoedd, er enghraifft mewn ardaloedd fel Ardal y Rhaeadrau.
- Amddiffyn a rheoli geoamrywiaeth y Parc, er enghraifft trwy gynllunio ac ymgymryd â gwaith cadwraeth ar sail safle.



**Maenhir Maen Llia**

# *"Beth mae pobl yn dweud?"*

## Chris Martin

Pennaeth Gwasanaethau Curadurol, YACP - Archeolegydd Rhanbarthol

*"Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys yw un o bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru ac mae'n gweithio'n agos â chyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill, i helpu i ddiogelu, cofnodi a dehongli pob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys yn y Parc Cenedlaethol. Rydym yn cadw cofnodion am safleoedd sy'n ymwneud ag archaeoleg a threftadaeth. Rydym yn gweld ein rôl fel gweithio gyda rheolwyr tir y Parc i sicrhau bod treftadaeth archaeolegol y Parc Cenedlaethol yn cael ei chydnabod ac yna'i diogelu a'i hybu am genedlaethau i ddod."*

I gael mwy o wybodaeth am waith yr Ymddiriedolaeth Archeolegol ewch i **www.cpat.org.uk**

## Gary Evans

Hawk Associates a Chydlynydd,
Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru

*"Mae'r cyfuniad o geunentydd creigiog a dŵr sy'n llifo'n gyflym yn golygu bod Ardal y Rhaeadrau yn lleoliad cyffrous a llawn her i weithgareddau anturus. Fodd bynnag, mae llawer o'r ardal yn y ceunentydd ac o'u hamgylch wedi'i hamddiffyn yn gyfreithiol oherwydd ansawdd uchel a phrinder ei chynefinoedd. Mae grwpiau gweithgaredd wedi dod at ei gilydd â'r sefydliadau sy'n rheoli Ardal y Rhaeadrau i gynhyrchu Cod Ymddygiad syml a ddyluniwyd i leihau effaith amgylcheddol ymweliad gymaint â phosibl. Bellach mae cydymffurfio â'r Cod yn ofynnol i gael caniatâd i gael mynediad i'r safle, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn golygu y bydd ar gael i bawb yn y dyfodol."*

I gael mwy o wybodaeth am y Grŵp Darparwyr Gweithgareddau ewch i **www.swoapg.co.uk**



## Paul Dann

Rheolwr Ardal, Comisiwn Coedwigaeth Cymru

*"Mae oddeutu 10,000 hectar o'r Parc yn goetir a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ac fel Rheolwr Ardal lleol rwy'n gweithio'n agos â Wardeniaid y Parc Cenedlaethol i ddatblygu teithiau cerdded a llwybrau newydd i wneud y defnydd gorau o dirwedd y goedwig ar gyfer pob math o weithgareddau hamdden.*

*Rydym yn gysylltiedig ag Awdurdod y Parc i wella gwerth addysgol y dirwedd ffantastig hon. Bydd ein Swyddogion Addysg yn gweithio gydag ysgolion lleol i wneud y defnydd gorau o'r amgylchedd dysgu naturiol hwn a hefyd mae ein canolfan i ymwelwyr yng Ngarwnant, sydd ar yr A470 ger y fynedfa i'r Parc, yn ganolfan i ysgolion a theuluoedd ddysgu mwy am y coetiroedd, coedwigoedd a bywyd gwyllt cysylltiedig sydd i'w ganfod ym Mannau Brycheiniog.*

*Hefyd mae ein gwaith yn ymestyn i sicrhau bod ein cynlluniau dylunio ar gyfer yr ardaloedd coetir a choedwig yn gweddu â'r cynlluniau cyffredinol ar gyfer y Parc. Hefyd mae ein Cyfarwyddwr yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru yn aelod o bwyllgor Geoparc y Fforest Fawr."*

I gael mwy o wybodaeth am waith y Comisiwn ewch i **www.forestry.gov.uk/wales**



# Cadw a Gwella Bioamrywiaeth



## Pam ei fod yn bwysig edrych ar ôl rhywogaethau a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol?

Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu pob agwedd ar y byd byw. Gall colli un rhywogaeth benodol arwain at farwolaeth llawer o rywogaethau eraill a cholled cynefinoedd cyfan o bosibl. Mae pob anadliad yn treulio ocsigen a gynhyrchwyd gan goedwigoedd a moroedd; ac mae pob cegaid o fwyd wedi bod yn ddeunydd byw ar un adeg yn cael ei feithrin gan bridd, microbau a'r haul. Mae cynefinoedd amrywiol yn cefnogi nifer enfawr o rywogaethau ac mae eu gwerth yn dod yn fwyfwy amlwg - er enghraifft mae mawnogydd yn helpu i storio dŵr glaw a charbon wrth leihau'r risg o lifogydd a sychdwr.

Y tu hwnt i'r holl fuddion hollol ymarferol, mae rhyngweithio â'r byd naturiol yn darparu'r mwynhad, ysbrydoliaeth a buddion ysbrydol sy'n hanfodol i les corfforol a meddyliol.

Y dasg sy'n wynebu rheolwyr y Parc Cenedlaethol yw cadw ein hadnoddau biolegol a›u gwella lle bo hynny'n bosibl. Mae polisïau rhyngwladol a chenedlaethol yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn un o brif ystyriaethau pob sector o reolaeth Parc Cenedlaethol. Ni fydd y dasg hon yn hawdd oherwydd elfennau ansicr newid yn yr hinsawdd, a allai waethygu effeithiau pwysau eraill ar fioamrywiaeth. Y ffordd orau ymlaen yw rheoli'r dirwedd gyfan er mwyn amddiffyn bioamrywiaeth. Mae dull o weithredu o'r fath angen cydweithrediad holl bartneriaid bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol i wneud yn siŵr bod anghenion cynefinoedd a rhywogaethau unigol yn cael eu diwallu. Ar yr un adeg, gall rheolwyr gymryd golwg mwy eang ar sefyllfa pob cynefin yn y dirwedd, eu perthynas â'i gilydd a'u rhyng-gysylltiadau.

## Beth fyddwn ni'n cyflawni?

Mae'n rhaid diogelu rhywogaethau a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol fel eu bod yn gallu ffynnu. Manylir ar un o'r ffyrdd gorau o reoli llawer o'r rhywogaethau prin a gwarchodedig yn y Parc yn y cynlluniau unigol o'r enw Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLlau). Mae sefydliadau lleol, fel yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, yn chwarae rôl gref wrth roi'r cynlluniau hyn ar waith trwy ddarparu hyfforddiant a chyngor am reoli i dirfeddianwyr i'w helpu i feithrin rhywogaethau gwarchodedig â chynefinoedd diogel, cynaliadwy ar eu tir.

Dyma grynodeb o'r gweithredoedd y manylwyd arnynt yn fwy manwl yng Nghynllun Gweithredu'r Parc Cenedlaethol:

- Datblygu prosiectau cymunedol sydd o fudd i'r cyhoedd a bywyd gwyllt, fel gweithgareddau gwirfoddolwyr y gellir eu trefnu a'u targedu i gyflawni gweithredoedd mewn CGBLlau.
- Ymchwilio a monitro'r poblogaethau rhywogaethau penodol a statws eu cynefinoedd, yn enwedig ar safleoedd a nodwyd mewn CGBLlau. Dylai hyn bennu'r hyn sy'n digwydd iddynt dros amser ac effaith unrhyw ymyrraeth i geisio gwella'u cyflwr.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran bioamrywiaeth y Parc fel bod trigolion ac ymwelwyr yn deall pa rywogaethau yn y Parc Cenedlaethol sydd wedi'u hamddiffyn a beth sy'n cael ei wneud i'w hamddiffyn. Un enghraifft yw'r gwaith ar y gweill mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymgymryd ag ef gyda phorwyr lleol, Cymdeithasau Merlod Mynydd Cymru a sefydliad PONT i helpu i ddiogelu'r Merlod Mynydd Cymreig brodorol.



# "Beth mae pobl yn dweud?"

## Stuart Reid

Arweinydd Tîm, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

*"Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ddyletswydd i edrych ar ôl tirwedd Cymru. Yn fras, mae ein gwaith yn rhannu i dri maes. Rydym yn amddiffyn tirweddau yn gyfreithiol, gan gynnwys safleoedd o ddiddordeb o ran daeareg a bywyd gwyllt; rydym yn dyfarnu grantiau i helpu'r amgylchedd a bywyd gwyllt neu wella mynediad fel bod pobl yn gallu mwynhau'r cefn gwlad; rydym yn cynnig cyngor ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys bywyd gwyllt wedi'u gwarchod yn arbennig, fel ystlumod a chynllunio datblygiad. Un o ddyletswyddau CCGC yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ba ardaloedd dylai gael dynodiad Parc Cenedlaethol. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys tirwedd ucheldirol sydd ymhlith y mwyaf ysblennydd a nodedig ym Mhrydain, yn ogystal â chyfoeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys rhywogaethau planhigion fel coed criafol gwynion a heboglys, sy'n tyfu yma a dim yn unlle arall yn y byd. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn arf gofynnol i helpu i reoli a chadw'r dirwedd, cynefinoedd a rhywogaethau sy'n rhoi i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei rinweddau nodedig."*

I gael mwy o wybodaeth am waith CCGC ewch i **www.ccw.gov.uk**

## Bev Lewis

Swyddog Cadwraeth, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog

*"Elusen gofrestredig yw Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog, yng nghanol y Parc Cenedlaethol yn Aberhonddu. Rydym yn rheoli 10 gwarchodfa yn y Parc ac yn ymgymryd â phrosiectau cadwraeth gan ddefnyddio gwirfoddolwyr. Credwn ei fod yn hanfodol bwysig bod ymwelwyr a chymunedau lleol yn deall yr hyn rydym yn ei wneud a hefyd yn ei gefnogi, ac yn teimlo eu bod yn berchen ar y gwarchodfeydd ar garreg eu drws. Os bydd tirfeddianwyr lleol a rheolwyr tir yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cynnal cynefinoedd yna, mewn partneriaeth, gallwn wneud gwahaniaeth arwyddocaol."*



I gael mwy o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth ewch i **www.brecknockwildlifetrust.org.uk**

## Colin Thomas

Ysgrifennydd Cymdeithas Gwella Merlod Mynydd Cymru

*"Yn fy marn i, mae dyfodol y merlod mynydd Adran A cofrestredig rhannol-wyllt angen rheolaeth ofalus â llawer o sefydliadau sy'n bartneriaid gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, PONT ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Byddai'n anodd iawn parhau i gadw merlod ar y bryniau heb drefniant i gydweithio.*

*Mae'r merlod brodorol hyn yn rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru; ac mae eu ffigyrau cyffredinol yng Nghymru o bryder mawr. Mae Ecolegwyr arweiniol Parciau Cenedlaethol eisoes wedi sylw ar eu dirywiad oherwydd yr effaith y mae'r diffyg cydbwysedd o ran pori cymysg yn ei chael ar gadwraeth; lle nad oes merlod mae rhannau o'r bryniau a thiroedd comin yn mynd yn anhramwyadwy oherwydd rhedyn ac eithin.*

*Os yw'r tywydd yn addas, yr amser i'w hel yw unrhyw bryd ym mis Hydref. Rydym yn teithio dros filoedd o erwau i wirio'r merlod a'u dilyngyru, a diddyfnu'r ebolion; gall hyn gymryd nifer o geisiadau gan ddefnyddio beiciau modur pedair olwyn a phobl ar gefn ceffylau. Tasgau anodd ond gwerth chweil ar gyfer y canlyniad yn y pen draw - merlen fynydd yng ngwir ystyr y gair sydd â deallusrwydd, harddwch, ac yn bwysicaf oll, y gwydnwch i oroesi yn yr hyn mae natur yn ei roi iddynt nawr ac yn y dyfodol."*



I gael mwy o wybodaeth am waith y Gymdeithas ewch i www.hillponies.com

# Darparu Cyfleoedd Mynediad a Hamdden Awyr Agored



## Pam ei fod yn bwysig bod pawb yn cael y cyfle i chwarae yn y Parc?

Mae cynnig cyfleoedd ar gyfer mynediad a hamdden awyr agored wrth galon ail ddiben holl Barciau Cenedlaethol y DU. Mae gan bawb, beth bynnag bo'u hoed, ethnigrwydd neu allu, yr hawl i gael mynediad at y rhinweddau sy'n gwneud y Parc hwn yn arbennig a'u mwynhau. Ar wahân i'w harddwch sy'n ysbrydoli cymaint o bobl, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n gallu gwella iechyd a lles. Mae'r rhain yn cynnwys myfyrdod tawel ar y tirweddau yn ogystal â gweithgareddau fel cerdded, beicio, beicio mynydd, marchogaeth, defnyddio caiac a physgota. Yr her yw darparu'r cyfleoedd hyn wrth osgoi erydiad yr ardaloedd arbennig y mae pobl yn dod yma i'w mwynhau a chael budd ganddynt.

Nid yw pob gweithgaredd yn gynaliadwy ym mhob ardal neu'n gallu cael eu hymarfer â'r un lefel o ddwyster ym mhob man. Mae angen i reolwyr gydweithio i gynnal a gwella cyfleoedd i fwynhau rhinweddau arbennig y Parc er budd cymunedau lleol, ymwelwyr ac adnoddau'r Parc. Mae angen i bobl sydd allan yn mwynhau'r Parc fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol yn ogystal â pharchu'r cynefinoedd a bywyd gwyllt maent yn dod ar ei draws.

## Beth fyddwn ni'n cyflawni?

Bydd pawb yn cael y cyfle i fwynhau'r Parc a chael mynediad ato. Dyma grynodeb o'r gweithredoedd y manylwyd arnynt yn fwy manwl yng Nghynllun Gweithredu'r Parc Cenedlaethol:

- Rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus trwy roi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar waith. Bydd rhoi'r Cynllun ar waith yn llwyddiannus yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cerdded, marchogaeth, beicio a ffurfiau eraill o hamdden awyr agored yn ogystal ag edrych ar ba mor hygyrch mae'r gweithgareddau hyn ar gyfer pobl ag amhariadau o ran symud neu weld.
- Gwella mynediad at gefn gwlad a chynnig gwell gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael. Un o'r materion allweddol yw darparu mwy o lwybrau sy'n hygyrch i bobl ag anableddau.
- Defnyddio unrhyw arian neu gyfle i ddarparu adnoddau i roi mwy o gyfleoedd i bobl fynd allan. Er enghraifft, datblygu gwell mynediad i fwy o'r gwarchodfeydd y mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn berchen arnynt.



# “Beth mae pobl yn dweud?”

## Geoff Smart

Tywysydd ar gyfer Teithiau Cerdded o amgylch Talgarth

*“Pan welaf grŵp o gerddwyr yn y maes parcio yn Nhalgarth gyda'r llyfryn teithiau cerdded, rwy'n gwybod bod ein holl waith caled wedi bod gwerth chweil. 'Talgarth fel Cyrchfan' ydym ni - grŵp o wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol lleol a gweithredwyr twristiaeth sy'n gweithio mewn partneriaeth i annog ymwelwyr i ddod a darganfod rhinweddau arbennig Talgarth, yn swatio wrth droed y Mynyddoedd Duon. Gwnaethom ddefnyddio arian Ewropeaidd i helpu i ariannu cynhyrchu'r llyfryn ac rydym wrth ein bodd â'r effaith mae'n ei chael.”*

I gael manylion y teithiau cerdded ewch i **www.visittalgarth.co.uk**

## Anne Summers

Cadeirydd Grŵp Mynediad Brycheiniog

*“Ers y 1980au, mae gwirfoddolwyr yng Ngrŵp Mynediad Brycheiniog wedi bod yn ymladd dros well mynediad i bawb yn Ne Powys, ac yn enwedig i bobl ag anableddau. Ein nod yw gwella mynediad at strydoedd, llwybrau troed, adeiladau cyhoeddus, tafarndai, bwytai a gwestai, mannau adloniant, siopau, cyfleusterau gwasanaeth iechyd a chartrefi sy'n cael eu hadeiladu neu foderneiddio. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, busnesau lleol a chyrff eraill gwirfoddol. Mae ein gwaith yn cynnwys cynnig cyngor a gwybodaeth i gynllunwyr, datblygwyr a'r cyhoedd.”*

I gael mwy o wybodaeth am waith y grŵp Mynediad ewch i **www.brecknockaccess.org.uk**

## Keith Lee

Bikes and Hikes, Aberhonddu

*“Mae fy nghysylltiad â mentrau i hybu beicio yn y Parc Cenedlaethol wedi fy arwain i sefydlu grŵp beicio i annog pobl leol ac ymwelwyr i fynd allan yn y Parc Cenedlaethol. Grŵp anffurfiol ydym ni a byddwn yn mynd allan y rhan fwyaf o wythnosau - er mai fy ngwaith i yw hwn, dyma fy hobi hefyd ac rwyf eisiau rhannu fy mrwdfrydedd am feicio yn y dirwedd brydferth hon. Anfonwch neges e-bost atom info@bikesandhikes.co.uk os hoffech ddod gyda ni.”*

I gael manylion y busnes ewch i **www.bikesandhikes.co.uk**





# Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth



## Pam ei fod yn bwysig deall beth yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog?

Mae'r Parc Cenedlaethol yn adnodd naturiol a diwylliannol pwysig i bawb ei fwynhau a'i ddeall. Mae ei reoli yn llwyddiannus yn dibynnu ar bawb yn deall ei bwysigrwydd gan gynnwys pam fod arian yn cael ei wario ac amser yn cael ei dreulio i gynnal a gwella bioamrywiaeth, harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.

Mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn arbennig o bwysig ar gyfer cymunedau lleol sy'n gallu bod yn falch o'r Parc Cenedlaethol. Gall y balchder hwn gyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Gall gwell dealltwriaeth o'r arferion rheoli yn y Parc annog mwy o bobl i roi eu hamser i wirfoddoli â phrosiectau sy'n werth chweil yn eu barn hwy. Mae gwell dealltwriaeth yn annog ymwelwyr i'r Parc i ymddwyn yn gyfrifol - trwy ddilyn Cod Cefn Gwlad er enghraifft - a datblygu gwir deimlad o berchnogaeth a gwarchodaeth dros y Parc.

## Beth fydd hyn yn ei gyflawni?

Bydd trigolion ac ymwelwyr yn deall mwy am pam fod yr ardal wedi cael ei gwneud yn Barc Cenedlaethol a sut i ofalu amdano.

Dyma grynodeb o'r gweithredoedd y manylwyd arnynt yn fwy manwl yng Nghynllun Gweithredu'r Parc Cenedlaethol:

- Defnyddio adnoddau i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol. Un o'r ffyrdd rydym yn bwriadu gwneud hyn yw trwy weithio gydag athrawon ysgol i helpu i ddarparu modiwlau sy'n cynnwys gwybodaeth am y Parc mewn ysgolion. Bydd hyn yn cefnogi polisïau cenedlaethol y Cynulliad Cenedlaethol ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.
- Darparu gwasanaeth i ymwelwyr sy'n rhagori ar eu disgwyliadau. Rhaid o'r ffyrdd rydym yn ceisio cyflawni hyn yw trwy gynnig cyrsiau hyfforddiant i fusnesau twristiaeth fel Cynllun Llysgennad y Parc a star gazing ar gyfer busnesau.
- Hybu a datblygu teimlad o gyfrifoldeb a rennir ar gyfer y Parc Cenedlaethol a Geoparc Fforest Fawr sydd â dynodiad Ewropeaidd sydd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Er enghraifft, mae menter y Cymoedd Gwyrdd yn cynnig enghraifft i gymunedau eraill o ran sut gallant hwy hefyd liniaru newydd yn yr hinsawdd. Menter yw'r Cymoedd Gwyrdd sy'n ceisio annog cymunedau carbon niwtral, diogel yn ariannol a chynaliadwy trwy hybu pŵer dŵr, coetir a reolir gan y gymuned a rhandiroedd.
- Datblygu cynllun â blaenoriaethau i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr a thrigolion yn enwedig trwy ddarparu dehongliad mewn safleoedd poblogaidd – fel tafarndai a busnesau twristiaeth.
- Darparu ffyrdd arloesol o gysylltu ag ymwelwyr a thrigolion a rhyngweithio â hwy.
- Sefydlu rhwydwaith ymchwil gwyddoniaeth amgylcheddol a fydd, er enghraifft, yn hybu cysylltiadau â phrifysgolion sydd â diddordeb mewn Gwyddorau'r Ddaear fel daeareg.



# "Beth mae pobl yn dweud?"

## Barn

disgybl o Ysgol Gynradd Deri View, Y Fenni

*"Y trip ysgol allan i Fannau Brycheiniog oedd y gorau! Roedd y Parc Cenedlaethol yn wych - roedd Coed y Cerrig yn hwyl yn enwedig pan wnaethom weld y gors! Roedd yn ffiaidd - ond cŵl. Cawsom helfa bwystfilod bach a chefais fy synnu gan gymaint o chwilod anhygoel sydd yna."*



## Kathy Brookshaw

o Wely a Brecwast Gwynderi, Crug Hywel
Llysgennad ers 2010



*"Bellach gallaf siarad â'm cwsmeriaid â mwy o wybodaeth ac awdurdod am y Parc, yn enwedig ardaloedd pellach i ffwrdd o Grug Hywel. Hefyd rwyf wedi cael fy annog i brynu mwy o lyfrau ac ymchwilio rhywfaint o'r wybodaeth a roddwyd."*

I gael mwy o wybodaeth am y busnes ewch i **www.gwynderibedandbreakfast.co.uk**

## Colin Passmore

Perchennog Court Farm Llanddewi Nant Hodni

*"Y tro cyntaf i Court Farm gymryd rhan yn Fferm Agored ar ddydd Sul nid oeddem yn siŵr beth i'w ddisgwyl, ond roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr. Roedd yr ymwelwyr mor frwdfrydig ac awyddus i ddysgu am y fferm, a gweithiodd yr amrywiaeth o areithiau ac arddangosfeydd ar hyd y llwybr yn dda iawn a chawsom adborth ardderchog. Roedd y byrgers yn boblogaidd iawn hefyd!*

*Roedd yn dda gweithio gyda staff y Parc i ddangos ffermio yn ei gyd-destun â'r dirwedd a'r amgylchedd. Mae digwyddiadau fel Fferm Agored ar ddydd Sul yn profi bod pobl, pan fyddant yn cael y cyfle, yn awyddus i ddysgu mwy am sut bydd ffermwyr yn cynhyrchu eu bwyd ac yn rheoli'r dirwedd arbennig hon a byddwn yn ei gynnal eto eleni."*

I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.llanthony.co.uk**



# Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy



## Pam fod y cymunedau yn y Parc yn bwysig?

Mae gan Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn y DU ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol. Maent hefyd yn cydnabod bod y Parciau yn dirweddau byw lle mae pobl yn byw, gweithio a ffermio. Maent yn lleoedd arbennig a gwarchodedig â chyfyngiadau ar y defnydd o adnoddau naturiol a'r datblygiad sy'n dderbyniol ynddynt. Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer pob cymuned o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Bydd materion cyffredinol fel newid yn yr hinsawdd, disbyddiad tanwyddau ffosil, yr angen am dai fforddiadwy, a dirywiad economaidd yn effeithio ar y cymunedau, ac mae'n rhaid i'r rheiny sy'n rheoli tirwedd y Parc gynllunio ar gyfer effeithiau'r rhain i gyd. Hefyd mae gan y bobl a'r cymunedau sy'n byw ac yn gweithio o fewn eu ffiniau rôl fel ceidwaid yr amgylchedd.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gartref i oddeutu 33,000 o bobl, ac mae'n meddu ar dreftadaeth Gymreig gryf ynghyd â bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog. Yr anheddiad mwyaf yw tref eglwys gadeiriol Aberhonddu. Gydag Aberhonddu, mae aneddiadau Crug Hywel, Gilwern, Y Gelli Gandryll a Thalgarth yn gartref i oddeutu 46% o drigolion y Parc. Mae aneddiadau eraill mwy fel Y Fenni, Merthyr Tudful, Llandeilo a Llanymddyfri ar ymyl y Parc. Mae byw mewn tirwedd drawiadol fel y Parc Cenedlaethol yn golygu buddion positif sylweddol er enghraifft awyr glân, cyfleoedd i weld y sêr yn y nos a mynediad at amrywiaeth helaeth o fioamrywiaeth. Ceir cyfleoedd busnes o'r nifer sylweddol o ymwelwyr sy'n dod i'r ardal warchodedig yn benodol i fwynhau gweithgareddau hamdden a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru yn annog Awdurdodau Parc Cenedlaethol i weithio'n agos â'u cymunedau i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o fyw. Dylai'r opsiynau hyn annog bywiogrwydd a hyfywedd cymunedau, trefi a phentrefi'r Parc Cenedlaethol â datblygiad cynaliadwy yn ganlyniad terfynol. Ar yr un pryd, rhaid i'r nodweddion sy'n rhoi hunaniaeth ddiwylliannol neu naws am le i gymunedau'r Parc Cenedlaethol gael eu cadw a'u gwella.

## Beth fyddwn ni'n cyflawni?

Mae cyflwr y Parc Cenedlaethol wedi'i gysylltu yn annatod â lles ei gymunedau ac o'r herwydd, dylai dynodiad y Parc Cenedlaethol ddod â budd i'r economi lleol a chymunedau lleol mewn ffyrdd sy'n gweithio i gadw a gwella rhinweddau arbennig y Parc. Dylai hyn ddod â budd i bawb.

Dyma grynodeb o'r gweithredoedd y manylwyd arnynt yn fwy manwl yng Nghynllun Gweithredu'r Parc Cenedlaethol::

- Annog a chefnogi mentrau sy'n cael eu harwain yn gymunedol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, disbyddu tanwyddau ffosil ac allyriadau ffosil ac yn adeiladu'r gallu i'w gwrthsefyll. Enghraifft ddiweddar yw'r cydweithio â Chyswllt Ffermio i nodi prosiectau ynni cynaliadwy ar ffermydd.
- Darparu Cronfa Ddatblygu Gynaliadwy (cynllun grant yw hwn â phroses gais agored) sy'n bodloni'r blaenoriaethau strategol y manylwyd arnynt yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Gellir defnyddio ei gefnogaeth ariannol i ddatblygu marchnata bwyd lleol a gynhyrchwyd yn gynaliadwy.
- Cefnogi mentrau sy'n gwella balchder cymunedol yn nynodiad y Parc Cenedlaethol a budd ohono. Er enghraifft, hybu hyfforddiant galwedigaethau fel dysgu sgiliau rheoli tir a ffermio traddodiadol.
- Darparu Cynllun Datblygu Lleol cadarn. Mae'r ddogfen hon yn cael ei chynhyrchu gan adran Strategaeth a Pholisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar ôl ymgynghori'r eang â rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Ar ôl llawer o adolygu cyhoeddus daw hon yn y brif ganllaw bydd yr Awdurdod yn defnyddio wrth bennu ceisiadau cynllunio.





Ŵyl Jazz Aberhonddu

# *"Beth mae pobl yn dweud?"*

## Mr Robert Jackson

Cadeirydd Cyngor Cymuned Cwmdu a'r Ardal

*"Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun Rheoli newydd ac yn gobeithio y bydd Cynghorau Cymuned yn gallu chwarae eu rhan wrth gadw a gwella'r Parc Cenedlaethol er budd y rheiny sy'n byw a gweithio ynddo, yn ogystal â'r rheiny sydd wrth eu bodd yn ymweld â'r rhan arbennig hon o'r byd."*

## Chris Blake

Cyfarwyddwr, Y Cymoedd Gwyrdd

*"Mae'r Cymoedd Gwyrdd wedi'i leoli ym Mannau Brycheiniog. Cwmni budd cymunedol ydym a'n nod yw gwneud pŵer trydan-micro yn bosibilrwydd go iawn ar gyfer tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol. Gallwn gynnig astudiaethau dichonoldeb cychwynnol, rheoli'r broses caniatâd ar gyfer adeiladu er mwyn cynhyrchu pŵer dŵr-micro.*

*Rydym hefyd yn gweithio gyda chymunedau i harneisio adnoddau coetir lleol. Ein nodau yw creu model rheoli coetir cynaliadwy sy'n gallu cefnogi bioamrywiaeth a datblygu incwm o danwydd coed a chynnyrch coetir eraill yn ogystal â chefnogi addysg.*

*Rydym yn gweithio i gefnogi grwpiau cymunedol mewn nifer o ffyrdd ar wahân i sefydlu cynlluniau pŵer dŵr-micro a phrosiectau coetir cymunedol. Gallwn hefyd gynghori ar ymgysylltu cymunedol a threfniadaeth gyfreithiol ac yn gallu cyfeirio cymunedau at ymarfer gorau mewn nifer o feysydd a thechnolegau ar draws Cymru gan gynnwys clybiau bio-diesel, clybiau car, rhandiroedd a gerddi cymunedol."*



I gael mwy o fanylion am y cwmni ewch i **www.thegreenvalleys.org**

## Gavin Hogg

Penpont

*"Gan ein bod yn byw mewn ardal unigryw sydd mor brydferth, rydym yn teimlo bod cyfrifoldeb arnom i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd lle bynnag bo hynny'n bosibl, ac rydym yn mynd ati i annog ein hymwelwyr i wneud hyn hefyd. Rydym yn ymdrechu i ddod o hyd i'n ein cyflenwyr o gwmnïau moesegol a chefnogi cynhyrchwyr a busnesau bach lleol lle bynnag bo hynny'n bosibl. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi cofleidio nifer o systemau ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau.*

*Rydym wedi ymrwymo i gadw crefftau a sgiliau gwledig yn fyw, ac ym mis Medi 2010 mi wnaethom gynnal gŵyl 'The Big Skill', a gynigodd gyflwyniadau i amrywiaeth o grefftau a sgiliau, o blygu gwrychoedd i wehyddu helyg. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal eto mis Medi eleni."*

Adeiladwyd Penpont ym 1666 ac mae wedi parhau hyd heddiw yn dŷ a stad Gradd I dan berchnogaeth breifat. Mae gerddi helaeth o amgylch y tŷ, 45 erw i gyd, ac maent yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd, o lawntydd i goetiroedd, ardaloedd addurnol a gwyllt yn ogystal â dwy ardd â waliau o oes Fictoria sy'n cynhyrchu llawer o flodau, ffrwythau a llysiau organig. Mae'r dirwedd a gardd gyfagos wedi'u rhestru fel Gradd 2* ac mae Afon Wysg yn ei haneru gan greu rhaniad naturiol o ardd y de a gardd y gogledd gan greu ei gynefin ei hun o harddwch naturiol eithriadol. Mae'r Ardd wedi'i rhestru ag Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru a CADW.

I gael mwy o fanylion am y stad ewch i **www.penpont.com**



# Datblygu Economaidd Cynaliadwy



## Pam ei fod yn bwysig cefnogi busnesau yn y Parc i ddod yn fwy cynaliadwy?

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i amrywiaeth o fusnesau. Mae gan lawer o'r rhain ddiddordeb mewn sut gallant leihau eu heffaith ar yr amgylchedd i warchod y Parc Cenedlaethol a hefyd i ddenu cyhoedd detholgar i'w busnesau a hefyd mewn ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd fel prisiau tanwydd sy'n codi'n sydyn.

Mae twristiaeth yn hanfodol i'r economi lleol - mae'r Parc yn cynnig croeso i 3.6 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Bydd busnesau twristiaeth a darparu gweithgaredd yn y Parc yn gweithio i fanteisio i'r eithaf ar fuddion lleol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i reolwyr tir leihau effeithiau negyddol twristiaeth fel llwybrau troed sy'n erydu neu fwy o draffig ceir. Mae busnesau twristiaeth lleol, mewn cydweithrediad ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Geoparc Fforest Fawr, wedi bod yn gwneud camau bras ymlaen wrth ddatblygu rhwydweithiau cludiant cynaliadwy, creu cadwynau cyflenwi lleol, buddsoddi mewn cymunedau lleol a hybu datblygiad economaidd cynaliadwy.

Mae tirwedd Bannau Brycheiniog yn edrych fel y mae yn bennaf o ganlyniad i genedlaethau o ffermio. Petai pori da byw yn dirywio byddai ymddangosiad gwyrdd tonnog nodweddiadol y bryniau yn newid yn fuan, wrth i brysg dyfu ac yn y pen draw byddai coedwigoedd a choetiroedd yn dychwelyd.

Ar hyn o bryd mae bywoliaeth cymunedau ffermio'r Parc dan bwysau arwyddocaol gan nifer o heriau. Mae rhai busnesau fferm yn ymateb i'r newidiadau trwy brynu ffermydd cyfagos, gan arwain at nifer llai o ffermydd mwy. Mae ffermydd bach, teuluol, wedi nodweddu'r gymuned ffermio yn y Parc ers cenedlaethau ac yn aml y ffermydd hyn sydd wedi cefnogi bioamrywiaeth. Mae busnesau fferm eraill yn symleiddio eu systemau gan dreulio llai o amser ar reoli tirwedd.

Bellach mae budd-daliadau ar gyfer ffermwyr yn ceisio galluogi busnesau fferm i ymateb yn well i dueddiadau'r farchnad a darparu buddion trwy ymarferion ffermio – er enghraifft trwy gadwraeth bioamrywiaeth a chynyddu cyfleoedd i fwy o rywogaethau ddefnyddio ymylon cae a gwrychoedd.

## Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?

Datblygu economi cryf, llwyddiannus a chynaliadwy o ran twristiaeth a ffermio.

Dyma grynodeb o'r gweithredoedd y manylwyd arnynt yn fwy manwl yng Nghynllun Gweithredu'r Parc Cenedlaethol:

- Bydd y Parc yn gwireddu ei botensial llawn ar gyfer Ymwelwyr. Er enghraifft bydd y busnesau a rheolwyr ar hyd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn cydweithio i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymwelwyr wrth gadw'r sefyllfa ddeniadol mae'n ymlwybro trwyddi.
- Bydd effaith economaidd twristiaeth gynaliadwy yn cael ei gwella trwy annog mwy o ymwelwyr i aros dros nos, yn ogystal â defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy fel Bws y Bannau neu gludiant cyhoeddus i leihau eu heffaith amgylcheddol.
- Bydd mwy o fusnesau yn y Parc yn gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, gellir defnyddio ariannu Ewropeaidd i greu dull partneriaeth o weithredu i ddwyn cymunedau a busnesau ynghyd.
- Bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig i ffermwyr i'w helpu i ddelio â'r effeithiau sy'n effeithio ar ddyfodol busnesau ac ymarferion fferm. Er enghraifft, trwy annog ysgolion lleol, ysbytai, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau i brynu bwyd a gynhyrchwyd yn lleol.



# "Beth mae pobl yn dweud?"

## Teithiwr

Gwasanaeth Bws y Bannau, haf 2010

*"Os byddaf yn dod eto, hoffwn ddefnyddio'r gwasanaeth eto ac ymweld â gwahanol le fel y Pwll Mawr. Mae'n gwneud diwrnod allan da heb y drafferth o yrru car a byddwch yn gweld llawer mwy."*



## Y Parch. Alan Jevons

Elod o grŵp clwstwr Teithiau Cerdded Bwlch

*"Siaradais ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am y tro cyntaf gyda golwg ar gael mwy o ymwelwyr i'm Plwyf sef Llyn Syfaddan. Yn y pen draw, datblygwyd syniad i hybu gwyliau cerdded cynaliadwy i uno'r gymuned leol a chroesawu mwy o ymwelwyr i'r ardal. Mae dwy Eglwys Llangors a Llangasty yn amlwg iawn, ac mae'r New Inn ('Beacons Backpackers') a'r Star Bunkhouse ym Mwlch yn darparu llety croesawgar a bwyd blasu. Gyda'n gilydd gwnaethom ddyfeisio profiad cerdded tri diwrnod yn annog ymwelwyr i gyrraedd yn gynaliadwy ar y trên neu fws. Yna mae'r daith gerdded yn eu tywys ar draws dau grib mynydd, heibio Llyn Llangors, a dwy Eglwys Llangors a Llangasty, ac i Warchodfa Natur warchodedig.*

*Gwnaethom ddatblygu taflen ar gyfer y daith o'r enw 'Bwlch with Altitude', a gafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2009 gydag arian Ewropeaidd trwy'r prosiect COLLABOR8. Mae'r cydweithio wedi bod mor llwyddiannus fel ein bod yn lansio taith newydd o'r enw Bwlch with Fortitude sy'n cynnwys Tretŵr."*

I gael manylion y teithiau cerdded ewch i **www.bwlchwalks.co.uk**




## Fiona Walker


Cyfarwyddwr yr Ŵyl Defaid Llanymddyfri

*"Roeddem eisiau trefnu digwyddiad i ddangos ein tref hyfryd - Llanymddyfrif, felly gwnaethom benderfynu dathlu ei hanes porthmona trwy drefnu'r Ŵyl Ddefaid. Gwnaethom gyfweld busnesau canol y dref, arddangoswyr ac ymwelwyr a dywedodd fwy na thri chwarter yr ymwelwyr fod eu hymweliad â Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri yn well na'r disgwyl. Dywedodd rhai o arddangoswyr yr ŵyl wrthym eu bod wedi cael cymaint yn fwy o fusnesau nag yr oeddynt yn ei ddisgwyl, y gwnaethant redeg allan o stoc! Dywedodd ychydig dros 90% o fusnesau canol y dref gwnaethom siarad â hwy fod eu trosiant wedi cynyddu oherwydd yr ymwelwyr ychwanegol i›r dref dros y penwythnos.*

*Dyma'r mathau o ystadegau rydym eisiau clywed amdanynt fel ein bod yn gwybod bod twristiaeth yn cael effaith bositif ar economi lleol yr ardal. Roedd yn wych gweld cymaint o bobl yn gwenu a chlywed sylwadau gan bobl fel, 'dyma beth mae Llanymddyfri ei angen' a 'mae›r dref yn teimlo›n fyw eto'. Bellach rydym yn brysur yn trefnu'r un nesaf."*

I gael manylion yr ŵyl eich i **www.llandoverysheepfestival.co.uk**





# Ac yn olaf...

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle arbennig sy'n haeddu ymrwymiad ac ymroddiad y rheiny sy'n ei reoli. Mae'r cynllun hwn yn bodoli i helpu i roi teimlad o bwrpas iddynt a chyfeiriad i'w hymdrechion. Ni all unrhyw un fod yn sicr sut fydd 2030 yn edrych ond bwriad y Cynllun Rheoli yw y bydd pawb â rôl weithredol i'w chwarae yn gallu ymgynghori ag ef i'w helpu i benderfynu sut yw'r ffordd orau o ddiogelu eu rhan benodol hwy o'r Parc Cenedlaethol.  Mae'r Cynllun yn uchelgeisiol ond rydym yn gobeithio y byddwch yn cytuno ei fod yn gyfiawnadwy.

Cyhoeddwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. 2010. ©APCBB. Cedwir pob hawl.
Argraffu: Argraffwyd ar bapur Sidan Gwyn Revive 75 wedi'i ailgylchu, gan Argraffwyr Cambrian, Aberystwyth.

Ffotograffiaeth: ©BBNPA, ©Laurie Campbell, ©Court Farm, Llanddewi Nant Hodni, ©Hawlfraint y Goron, Croeso Cymru(2010), ©Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ©Nigel Forster, ©Graham Hilton, ©Stephen Shepherd(TGV), ©Nick Turner, ©Philip Veale,
Prif ddelwedd y clawr: Mynydd Pen-y-fâl a'r Mynyddoedd Duon gan Nigel Forster.